ATODLEN 2

Y GOFYNION SYDD I'W BODLONI GAN BERSONAU NAD YDYNT YN ATHRAWON CYMWYSEDIG ER MWYN CYFLAWNI'R GWAITH A BENNIR YN RHEOLIAD 7

**Personau a chanddynt gymwysterau arbennig neu brofiad arbennig**

**3.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys yn achos personau nad ydynt yn athrawon cymwysedig a benodwyd, neu y bwriedir eu penodi, i gyflawni gwaith a bennir yn rheoliad 7 mewn cysylltiad ag unrhyw grefft neu sgil neu mewn unrhyw bwnc neu grŵp o byncaiu, y mae angen ynddynt gymwysterau arbennig neu brofiad arbennig neu'r ddau er mwyn gwneud hynny.

(2) Caiff personau a grybwyllwyd yn is-baragraff (1) gyflawni gwaith a bennwyd yn rheoliad 7 mewn ysgol—

(a) os yw'r awdurdod lleol (yn achos ysgol nad oes ganddi gyllideb ddirprwyedig neu yn achos uned cyfeirio disgyblion), y corff llywodraethu sy'n gweithredu gyda chydsyniad yr awdurdod lleol (yn achos ysgol a chanddi gyllideb ddirprwyedig), neu'r corff llywodraethu (yn achos ysgol arbennig nas cynhelir gan awdurdod lleol), yn ôl y digwydd, ar adeg penodi'r personau, wedi ei fodloni ynghylch eu cymwysterau neu eu profiad neu eu cymwysterau a'u profiad; a

(b) os nad oes, ar adeg penodi'r personau, unrhyw athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig addas, neu athro neu athrawes sydd ar gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth, ar gael i'w benodi neu i'w phenodi felly; neu

(c) os nad oes, ar adeg penodi'r personau, mewn cysylltiad â gwaith a ddisgrifir ym mharagraff 6(2) o'r Atodlen hon, unrhyw berson addas sy'n dal cymwysterau sy'n ofynnol o dan reoliad 3 o Reoliadau 2002 ar gael i'w benodi felly.

(3) Dim ond am y cyfnod hwnnw, pan nad oes unrhyw athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig addas neu athro neu athrawes sydd ar gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth ar gael i'w penodi neu i'w phenodi neu, mewn cysylltiad â gwaith a ddisgrifir ym mharagraff 6(2) o'r Atodlen hon, dim ond am y cyfnodau hynny pan nad oes unrhyw berson addas sy'n dal cymwysterau sy'n ofynnol o dan reoliad 3 o Reoliadau 2002 ar gael i'w benodi felly, y caiff personau a benodir a chanddynt gymwysterau arbennig neu brofiad arbennig a ddisgrifir yn is-baragraff (1), ac sy'n bersonau sy'n cyflawni gwaith a bennir yn rheoliad 7 fel a ganiateir gan is-baragraff (2), wneud hynny, yn ddarostyngedig i is-baragraff (4).

(4) Nid yw is-baragraff (3) yn gymwys yn achos personau o'r fath a benodwyd cyn 8 Ebrill 1982—

(a) os am gyfnod penodedig y'u penodwyd, os ac ar yr amod nad yw'r cyfnod hwnnw wedi dod i ben; neu

(b) os am gyfnod amhenodedig y'u penodwyd, oni fynegwyd yn wahanol i hynny mai penodiad dros dro yn unig ydoedd.